OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 204 (Cy.18) (C.9)

IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

Gorchymyn Deddf Iechyd 2006 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2007

Wedi'i wneud - - 30 Ionawr 2007

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 79(3), 83(4), 83(5)(c), (d), (e), (f), (g) ac (8) o Ddeddf Iechyd 2006(**1**).

Enwi, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Iechyd 2006 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2007.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn —

mae i "cyrff y GIG yng Nghymru" yr ystyr a roddir i "*Welsh NHS bodies*" gan baragraff 2 o Atodlen 12B i Ddeddf 1977 sydd i'w mewnosod gan Atodlen 3 i'r Ddeddf;

ystyr "Deddf 1977" ("*the 1977 Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**2**); ac

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd 2006.

Y diwrnod penodedig ar gyfer darpariaethau sy'n ymwneud â mangreoedd, mannau a cherbydau di-fwg

2. 2 Ebrill 2007 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dod â darpariaethau canlynol y Ddeddf i rym —

(a) adrannau 1 i 3, 5 i 8, 10 a 12 ac Atodlen 1 i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym (**3**);

(b) adrannau 9 ac 11 ac Atodlen 2; ac

(c) adrannau 76, 77 a 78 i'r graddau y maent yn ymwneud â thramgwyddau o dan Bennod 1 o Ran 1.

(**1**) 2006 p.28.
(**2**) 1977 p.49.
(**3**) Yn rhinwedd adran 83(1)(e) o Ddeddf Iechyd 2006 daeth y darpariaethau hyn i rym ar y diwrnod y pasiwyd y Ddeddf i'r graddau y mae'r darpariaethau'n rhoi pŵer i wneud Gorchymyn neu Reoliadau, neu i ddiffinio unrhyw ymadrodd sy'n berthnasol i arfer unrhyw bŵer o'r fath.

Y diwrnod penodedig ar gyfer darpariaethau sy'n ymwneud â swyddogaethau gwrth-dwyll Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru ac â thramgwyddau mewn perthynas â'r swyddogaethau hynny

3. 1 Chwefror 2007 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dod â darpariaethau canlynol y Ddeddf hon i rym i'r graddau y maent yn ymwneud â swyddogaethau gwrth-dwyll Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru neu â thramgwyddau mewn perthynas â'r swyddogaethau hynny—

(a) adrannau 48 a 55 i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym(**4**);

(b) adrannau 44, 45, 46, 47, 49, 50, 51, 52, 53 a 54; ac

(c) adrannau 76, 77 a 78 i'r graddau y maent yn ymwneud â thramgwyddau o dan Bennod 3 o Ran 4.

Y diwrnod penodedig ar gyfer darpariaethau sy'n berthnasol i archwilio

4. 1 Chwefror 2007 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dod â darpariaethau canlynol y Ddeddf i rym, i'r graddau y maent yn ymwneud â chyrff y GIG yng Nghymru —

(a) adran 56 ac Atodlen 3;

(b) paragraffau 24(a), 43, 44 a 62 o Atodlen 8, ac adran 80(1) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darpariaethau hynny;

(c) yn Atodlen 9 —

(i) paragraff 21 o Atodlen 5 i Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002(**5**);

(ii) paragraff 2 o Atodlen 2 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004(**6**);

(iii) erthygl 2 o Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cyfrifon ac Archwilio Ymddiriedolaethau Elusennol ac Anelusennol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol) 2005(**7**); ac

(ch) adran 80(2) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r diddymiadau neu'r dirymiadau a bennir ym mharagraff (c).

Darpariaethau trosiannol sy'n berthnasol i archwilio

5.—(1) Mewn perthynas â chyrff y GIG yng Nghymru, er gwaethaf rhoi yn lle adran 98 o Ddeddf 1977 adran 56 o'r Ddeddf bydd —

(a) adran 98 o Ddeddf 1977;

(b) adran 144(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**8**);

(c) adran 14 o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000(**9**); ac

(ch) adran 61(1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004(**10**);

fel y byddant mewn grym ar 31 Ionawr 2007 yn gymwys o ran cyfrifon a gedwir gan y cyrff a restrir yn adran 98(1) mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2007 (yn unol â hynny, bydd y trefniadau a geir yn Atodlen 12B newydd i Ddeddf 1977 yn gymwys

(**4**) Yn rhinwedd adran 83(1)(e) o Ddeddf Iechyd 2006 daeth y darpariaethau hyn i rym ar y diwrnod y pasiwyd y Ddeddf i'r graddau y mae'r darpariaethau'n rhoi pŵer i wneud Gorchymyn neu Reoliadau, neu i ddiffinio unrhyw ymadrodd sy'n berthnasol i arfer unrhyw bŵer o'r fath.
(**5**) 2002 p.17.
(**6**) 2004 p.23.
(**7**) O.S.2005/1074.
(**8**) 1998 p.38.
(**9**) 2000 p.20.
(**10**) 2004 p.23.